Swyddog Llywyddu (SLl)/Clerc Pleidleisio (CP) – Meini Prawf Penodi

Bydd y Swyddog Canlyniadau/Tîm Etholiadau yn ymdrechu i benodi swyddogion llywyddu (SLl)/clercod pleidleisio (CP) fel a ganlyn:

1. **Canfaswyr y Gofrestr Etholwyr** yn Ninas a Sir Abertawe, cyn belled â bod ganddynt brofiad perthnasol i fod yn SLl/CP;

2. Os na fydd profiad perthnasol gan Ganfaswyr y Gofrestr Etholwyr, yna byddant yn cael eu defnyddio fel CP yn y lle cyntaf nes eu bod wedi datblygu'r profiad perthnasol i fod yn SLl;

3. **Dalwyr Allweddi/Gofalwyr Gorsafoedd Pleidleisio** yn Ninas a Sir Abertawe, cyn belled â bod ganddynt brofiad perthnasol i fod yn SLl/CP;

4. Os na fydd profiad perthnasol gan Ddalwyr Allweddi/Gofalwyr Gorsafoedd Pleidleisio, yna byddant yn cael eu defnyddio fel CP yn y lle cyntaf nes eu bod wedi datblygu'r profiad perthnasol i fod yn SLl;

5. Cynigir penodiadau yn y lle cyntaf i Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio sydd â'r rhinweddau a'r profiad perthnasol, gan gynnwys perfformiad (e.e. Cywirdeb, Dibynadwyedd, Rhifedd, Llythrennedd, a Sgiliau Personol etc.)

6. Byddwn yn ystyried ceisiadau am rôl Clerc Pleidleisio gan unigolion heb brofiad perthnasol er mwyn sicrhau bod gennym gronfa addas o staff pleidleisio.

7. Gosod pobl yn agos at eu cartrefi am fod hyn yn sicrhau gwybodaeth leol;

8. Gosod pobl mewn gorsafoedd dwbl/gyda staff profiadol iawn er mwyn sicrhau hyfforddiant parhaus digonol.

Sylwer:

1) Ni roddir blaenoriaeth i staff y cyngor;
2) Nid system y cyntaf i'r felin yw hon;
3) Gan y Swyddog Canlyniadau neu'r Dirprwy Swyddog Canlyniadau mae'r penderfyniad terfynol ar benodi.